**CYFARFOD COMISIWN FFINIAU A DEMOCRATIAETH LEOL CYMRU A GYNHALIWYD AR 1 RHAGFYR 2020 TRWY SKYPE**

**Yn bresennol:** Dr Debra Williams (Cadeirydd); Mr Ceri Stradling (Dirprwy Gadeirydd); Mr David Powell; Mrs Julie May; Mr Theodore Joloza.

**Swyddogion CFfDLC a oedd yn bresennol:** Mrs Shereen Williams (Prif Weithredwr); Mr Tom Jenkins (Pennaeth Polisi a Rhaglenni); Mr Josh Lovell (Swyddog Arolygon); Miss Hannah Toor (Swyddog Cymorth Busnes).

**Amser Dechrau:** 14:30
**Amser Gorffen:** 15:30

**Ymddiheuriadau:** Dd/B

**1. Datganiadau Buddiant**

1.1. Ni wnaed unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

**2. Diweddariad o Gyfarfod gyda Llywodraeth Cymru**

2.1. Rhoddodd y Prif Weithredwr ddiweddariad oddi wrth Elaina Chamberlain am ohebiaeth a gafwyd ynglŷn ag adroddiad Argymhellion Terfynol Caerdydd.

2.2. **Nodwyd** na fydd y Gweinidog yn gwneud penderfyniad tra bod achos cyfreithiol (posibl) yn parhau.

2.3. **Nodwyd** bod Llywodraeth Cymru wedi cael gohebiaeth ynglŷn ag Adroddiadau Argymhellion Terfynol Sir y Fflint a Chaerffili hefyd.

**3. Arolwg Etholiadol Bro Morgannwg**

3.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 17 Tachwedd 2020 gan y Swyddog Arolygon. Derbyniwyd 126 o gynrychiolaethau.

3.2. Mae'r cyfarfod wedi cael ei ailgynnull i ailystyried yr opsiynau y cytunwyd arnynt ar gyfer Bro Morgannwg yng nghyfarfod 24 Tachwedd 2020 o ganlyniad i gamgymeriadau yn yr adroddiad a ddarparwyd i'r Comisiwn yn y papur Opsiynau blaenorol. Cytunwyd y byddai'r penderfyniadau a wnaed yn y cyfarfod blaenorol yn cael eu diwygio gan y penderfyniadau heddiw. Byddai'r Adroddiad Argymhellion Terfynol yn cael ei lunio yn seiliedig ar y penderfyniadau a wneir heddiw.

3.3. Ystyriodd y Comisiwn y cynigion ar gyfer wardiau etholiadol presennol Rhanbarth 1, sef y Bont-faen, Llandŵ/Ewenni, Llanilltud Fawr, Sain Tathan a Saint-y-brid, a **chytunodd ar opsiwn 1**. Mae'r opsiwn hwn yn cynnwys pum ward etholiadol y Bont-faen, Llandŵ, Llanilltud Fawr, Sain Tathan a Saint-y-brid.

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi'r penderfyniad:

- Nid yw'n creu unrhyw gymunedau rhanedig.
- Mae'n osgoi creu ward newydd â thri aelod mewn ardal wledig fawr, ac mae'n cael ei gefnogi gan Gabinet Bro Morgannwg a Chynghorau Cymuned Llanilltud Fawr a Llanddunwyd.
- Mae'n gwella cydraddoldeb etholiadol i ryw raddau.
- Nid yw opsiwn 2 yn darparu cydraddoldeb etholiadol.

**Mae'r opsiwn hwn yn dychwelyd cyfanswm o ddeuddeg aelod, sef dau yn fwy na'r aelodaeth bresennol.**

3.4. Mae'r Comisiwn yn argymell mabwysiadu'r enwau fel y'u hargymhellir isod:

| **Enw Saesneg** | **Enw Cymraeg** |
|---|---|
| Cowbridge | Y Bont-faen |
| Llandow | Llandŵ |
| Llantwit Major | Llanilltud Fawr |
| St Athan | Sain Tathan |
| St Bride's Major | Saint-y-brid |

3.5. Ystyriodd y Comisiwn y cynigion ar gyfer wardiau etholiadol presennol Rhanbarth 2, sef Baruc, Buttrills, Cadog, Castleland, Court, Dyfan, Gibbonsdown ac Illtud, a **chytunodd ar opsiwn 1**. Mae'r opsiwn hwn yn cynnwys wyth ward etholiadol Baruc, Buttrills, Cadog, Castleland, Court, Dyfan, Gibbonsdown, Illtud.

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi'r penderfyniad:

- Nid yw'n creu unrhyw gymunedau rhanedig.
- Mae'n gwella cydraddoldeb etholiadol yn sylweddol.
- Nid yw'r un o'r wardiau'n parhau i fod yn fwy na +/- 25% o'r cyfartaledd sirol arfaethedig.

- Mae’n dychwelyd wardiau etholiadol sy’n adnabyddus i’r etholwyr ac sydd â ffiniau y gellir eu hadnabod yn rhwydd.
- Cefnogwyd yr opsiwn hwn hefyd gan Gabinet Cyngor Bro Morgannwg yn ogystal â nifer o gynrychiolaethau eraill.

**Mae’r opsiwn hwn yn dychwelyd cyfanswm o 20 aelod, sef dau yn fwy na’r aelodaeth bresennol.**

3.6. Mae’r Comisiwn yn argymell mabwysiadu’r enwau fel y’u hargymhellir isod:

| **Enw Saesneg** | **Enw Cymraeg** |
|---|---|
| Baruc | Baruc |
| Buttrills | Buttrills |
| Cadoc | Cadog |
| Castleland | Castleland |
| Court | Court |
| Dyfan | Dyfan |
| Gibbonsdown | Gibbonsdown |
| Illtyd | Illtud |

3.7. Ystyriodd y Comisiwn y cynigion ar gyfer wardiau etholiadol presennol Rhanbarth 3, sef Llanbedr-y-fro, y Rhws a Gwenfô, a **chytunodd ar opsiwn 1**. Mae’r opsiwn hwn yn cynnwys pedair ward etholiadol Llanbedr-y-fro, y Rhws, Sain Nicolas a Thresimwn, a Gwenfô.

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi’r penderfyniad:

- Mae’n gwella cydraddoldeb etholiadol, yn benodol yng Ngwenfô.
- Nid yw’n creu unrhyw gymunedau rhanedig.
- Nid yw’r un o’r wardiau’n parhau i fod yn fwy na +/- 25% o’r cyfartaledd sirol arfaethedig.
- Mae’r cynllun hwn yn cynnig y trefniadau gorau ar gyfer yr ardal ac yn cael ei gefnogi gan Gabinet Bro Morgannwg. Mae hefyd yn osgoi creu ward newydd arall â phedwar aelod mewn ardal led-wledig.

Ystyriwyd trydydd opsiwn yn ymwneud â diwygiad a gymeradwywyd gan y Cabinet, sef bod cymunedau Sain Siorys a Llanbedr-y-fro yn aros o fewn Llanbedr-y-fro, a bod y trefniadau presennol yn parhau.

**Mae'r opsiwn hwn yn dychwelyd cyfanswm o chwe aelod, sef un yn fwy na'r aelodaeth bresennol.**

3.8. Mae'r Comisiwn yn argymell mabwysiadu'r enwau fel y'u hargymhellir isod:

| **Enw Saesneg** | **Enw Cymraeg** |
|---|---|
| Peterston-super-Ely | Llanbedr-y-fro |
| Rhoose | Y Rhws |
| St Nicholas and Llancarfan | Sain Nicolas a Thresimwn |
| Wenvoe | Gwenfô |

3.9. Ystyriodd y Comisiwn y cynigion ar gyfer wardiau etholiadol presennol Rhanbarth 4, sef Cornerswell, Llandochau, Plymouth, St. Augustine's, Stanwell a Dinas Powys, a **chytunodd ar opsiwn 3**. Mae'r opsiwn hwn yn cynnwys chwe ward etholiadol Cornerswell, Llandochau, Plymouth a St. Augustine's, Stanwell, Dinas Powys.

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi'r penderfyniad:

- Mae'n cadw pump (80%) o'r wardiau etholiadol presennol.
- Mae'n gwella cydraddoldeb etholiadol yn sylweddol.
- Mae'n dychwelyd pum ward aml-aelod (Cornerswell, Dinas Powys, Plymouth, St. Augustine's, Stanwell).
- Nid yw'n creu unrhyw gymunedau rhanedig.
- Mae'r opsiwn hwn yn cydymffurfio â mwyafrif y cynrychiolaethau a gafwyd.

**Mae'r opsiwn hwn yn dychwelyd cyfanswm o bedwar aelod ar ddeg, sef yr un nifer â'r aelodaeth bresennol.**

3.10. Mae'r Comisiwn yn argymell mabwysiadu'r enwau fel y'u hargymhellir isod:

| **Enw Saesneg** | **Enw Cymraeg** |
|---|---|
| Cornerswell | Cornerswell |
| Llandough | Llandochau |
| Plymouth | Plymouth |
| St Augustine's | St Augustine's |
| Stanwell | Stanwell |
| Dinas Powys | Dinas Powys |

## 4. Unrhyw Fater Arall Perthnasol

4.1. **Nodwyd** y bydd y Prif Weithredwr yn cysylltu â'r Comisiwn Etholiadol i'w wahodd i roi cyflwyniad i gyfarfod y Comisiwn ar 26 Ionawr 2021.

4.2. Bydd y cyflwyniad yn cynnwys gwybodaeth am drosolwg o'r rôl, cofrestru etholiadol, a systemau pleidleisio etholiadol yng Nghymru.

4.3. **Gweithredu:** Y Prif Weithredwr i wahodd y Comisiwn Etholiadol i'r cyfarfod ar 26 Ionawr 2021.

## 5. Dyddiad y Cyfarfod Nesaf: 15 Rhagfyr 2020